# Yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol

**Rhaglen Radd Israddedig**
Meistr mewn Fferylliaeth (MPharm)



CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

# Rydyn ni'n cael ein sgorio'n gyson fel un o'r ysgolion Fferylliaeth gorau sy'n cynnig MPharm ledled y DU.

**Ffynhonnell:** Complete University Guide (UK)

# 100 mlynedd a mwy

o ragoriaeth ym maes addysgu ac ymchwil.

# 100%

o'n graddedigion yn llwyddiannus wrth wneud cais am le mewn hyfforddiant fferylliaeth sylfaenol.

---

Cewch eich dysgu gan academyddion sy'n arwain y maes ar lefel fyd-eang ac ymarferwyr gofal iechyd arbenigol.

Mae gennym ystafell efelychu clinigol ac ystafelloedd ymgynghori i'ch galluogi i ddysgu ac ymarfer eich sgiliau clinigol yn ddiogel.

---

Mae cyfran ein myfyrwyr sy'n pasio asesiad cofrestru fferyllwyr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar y cynnig cyntaf yn gyson uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Ffynhonnell:** GPhC

# 99%

o'n graddedigion MPharm mewn swyddi sy'n gofyn am hyfedredd uchel a/neu astudiaethau pellach ar lefel gradd 15 mis ar ôl i'w cwrs ddod i ben.

**Ffynhonnell:** Graduate Outcomes 2020/21

---

Rydyn ni'n siapio dyfodol fferylliaeth yng Nghymru gyda chysylltiadau cryf ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru.

Wedi ein hachredu gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC).



# Lle mae eich taith fferylliaeth yn dechrau

## Croeso i sefydliad lle rydyn ni'n uno gwyddoniaeth meddyginiaethau a gofal cleifion arbenigol i wella bywydau.

Er bod llawer wedi newid ers i ni ddechrau hyfforddi fferyllwyr dros 100 mlynedd yn ôl, ein cenhadaeth o hyd yw galluogi myfyrwyr, fel chi, i ennill y wybodaeth wyddonol, y sgiliau clinigol, a'r profiad proffesiynol fydd eu hangen arnoch ar gyfer dyfodol mewn fferylliaeth.

Mae eich opsiynau gyrfa yn niferus a, pha bynnag lwybr y dewiswch, byddwn ni'n eich helpu ar eich taith. Felly, os ydych chi'n caru gwyddoniaeth ac yn angerddol dros helpu pobl, ymunwch â'n hysgol gyfeillgar.


Allwn ni ddim aros i ddangos y cyfan i chi.





Dyma'r amser mwyaf cyffrous i ddod yn fferyllydd. O gynnal ymgynghoriadau meddygol a phresgripsiynu meddyginiaethau i weinyddu brechiadau a chynnal clinigau, byddwch chi'n gallu trin a chefnogi cleifion yn uniongyrchol unwaith y byddwch chi wedi cymhwyso.

# Dychmygwch eich hun fel ymarferydd fferyllfa hyderus, gyda'r wybodaeth arbenigol, y sgiliau clinigol a'r profiad ymarferol sydd eu hangen arnoch i wneud gwahaniaeth ystyrlon i fywydau pobl.



# Y peth pwysicaf i ni yw gwneud gwahaniaeth





# Ein Rhaglen Meistr mewn Fferylliaeth (MPharm)

## Côd UCAS: B230

Os ydych chi am ddod yn fferyllydd cymwys, mae ein rhaglen Meistr mewn Fferylliaeth, sydd yn aml yn ennill safle uchel mewn gwahanol gynghreiriau, wedi'i chynllunio'n benodol gyda'ch gyrfa chi mewn golwg.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen MPharm yn llwyddiannus, bydd angen i chi gwblhau blwyddyn o hyfforddiant sylfaenol. Yna gallwch sefyll asesiad cofrestru'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) i gofrestru fel fferyllydd cymwys a byddwch chi'n gallu presgripsiynu cyffuriau'n annibynnol ar y pwynt hwn.

Mae'n werth gwybod bod cyfran ein graddedigion sy'n pasio asesiad cofrestru GPhC ar y cynnig cyntaf yn gyson uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, felly rydych chi mewn dwylo da yma.

Dros y pedair blynedd y byddwch chi gyda ni ar gyfer eich gradd MPharm, cewch eich dysgu gan ein tîm o academyddion, sydd ag enw da ar lefel fyd-eang, a fydd yn llywio'ch dysgu a'ch cefnogi i lwyddo. Nid yn unig y byddwch chi'n archwilio gwyddoniaeth meddyginiaethau, byddwch chi hefyd yn mireinio eich sgiliau clinigol ac yn adeiladu eich hyder proffesiynol i'ch paratoi ar gyfer eich blwyddyn o hyfforddiant sylfaenol.

**I gael manylion llawn am ein rhaglen MPharm, y meini prawf mynediad, pa bynciau y byddwch chi'n eu hastudio a sut y cewch eich asesu, ewch i'n gwefan.**

**Byddwn i'n sicr yn argymell MPharm Prifysgol Caerdydd i unrhyw un sydd â diddordeb mewn astudio Fferylliaeth.**

Mae'r staff yma'n hynod gymwynasgar, cyfeillgar ac agos-atoch, ac mae'n amlwg sut y bydd ein dysgu'n ddefnyddiol yn y dyfodol pan fyddwn ni'n dechrau ymarfer fferylliaeth.

**Sue, myfyriwr MPharm**



# Lle byddwch chi'n dysgu mewn ffyrdd newydd a chyffrous

Trwy ein rhaglen israddedig Meistr mewn Fferylliaeth sydd wedi'i hachredu'n llawn, byddwch chi'n ymchwilio i wyddoniaeth fferyllol, sy'n rhychwantu disgyblaethau cemeg a bioleg, ac yn datblygu eich sgiliau clinigol wrth baratoi ar gyfer eich dyfodol fel fferyllydd. Dyma sut:



## O fainc y labordy i erchwyn gwely'r claf

Mae llawer i'w ddysgu ac archwilio tra byddwch chi gyda ni. O hanfodion cemeg feddyginiaethol a bioleg celloedd, yr holl ffordd i fecanweithiau cyflenwi cyffuriau cymhleth a mwy, byddwn ni'n eich helpu i ddatblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth wyddonol ar gyflymder cyson, heb eich gorlwytho.

Yn hanfodol, byddwch chi hefyd yn trosi'ch dysgu yn y labordy i sefyllfaoedd clinigol go iawn, gan wneud popeth yn berthnasol i ymarfer fferylliaeth.

**Bydd ein tîm o academyddion ac ymchwilwyr hynod brofiadol yn arwain eich dysgu ochr yn ochr ag ymarferwyr arbenigol mewn lleoliadau cymunedol, ysbytai a meddygfeydd.**

Drwy rannu eu profiadau beunyddiol fel fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymarfer, byddan nhw'n rhoi cipolwg amhrisiadwy i chi ar y proffesiwn.

## Cofleidio ffyrdd newydd o ddysgu

Er mwyn sicrhau ein bod yn ymdrin â'n cwricwlwm eang mewn ffordd ysgogol, berthnasol ac ystyrlon, bydd eich dysgu'n digwydd drwy gyfuniad pwrpasol o:

- ddarlithoedd a dosbarthiadau wyneb yn wyneb
- gweithdai ymarferol
- sesiynau ymarferol mewn labordai
- hunanastudio dan gyfarwyddyd
- profiad mewn lleoliadau clinigol efelychiadol a lleoliadau clinigol go iawn.

Trwy'r gwahanol fathau hyn o arddulliau ac amgylcheddau dysgu, byddwch chi'n ennill y wybodaeth wyddonol, y sgiliau ymarferol a'r profiad proffesiynol sydd eu hangen arnoch ar gyfer gyrfa mewn fferylliaeth.

**Byddwn ni'n caniatáu i chi gymryd cyfrifoldeb am eich dysgu eich hun ac yn rhoi pob cyfle i chi lwyddo.**

## Gweithio ochr yn ochr â myfyrwyr o ddisgyblaethau gofal iechyd eraill

Fel fferyllydd, byddwch chi'n gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol felly mae cael y cyfle i ddysgu ochr yn ochr â myfyrwyr o bynciau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd yn hynod fuddiol. Dyna pam, ar gyfer rhan o'ch astudiaethau, y byddwch chi yn yr un ystafelloedd dosbarth, darlithfeydd, neu weithdai â'ch cyfoedion o'r ysgolion Meddygaeth, Optometreg, Deintyddiaeth a Gofal Iechyd.

Rydyn ni'n ffodus iawn i allu cynnig y math yma o addysg ryngbroffesiynol gan fod yr ystod lawn o broffesiynau gofal iechyd wedi'i chynrychioli ym Mhrifysgol Caerdydd. Gwyddom y bydd hyn yn eich rhoi mewn lle da ar gyfer eich dyfodol.

## Datblygu sgiliau i'ch paratoi at yrfa

Cewch gyfle i ddatblygu ystod o sgiliau trosglwyddadwy hanfodol, gan gynnwys y gallu i:

- reoli eich amser a'ch llwyth gwaith
- talu sylw i fanylion
- cyfathrebu'n effeithiol ac yn dosturiol
- meddwl yn feirniadol ac yn gyfannol
- gweithio ar y cyd
- ymddwyn yn broffesiynol ac yn briodol, yn enwedig mewn lleoliadau clinigol.

A pheidiwch â phoeni, byddwn ni'n cynnig llawer o gyfleoedd i chi fireinio'r sgiliau hyn.

Byddwn ni'n eich annog i ofyn cwestiynau a myfyrio ar eich profiadau, ac yn cynnig arweiniad wrth i chi symud 'mlaen trwy eich gradd MPharm.



# Lle mae eich dysgu'n dod yn fyw

Er mwyn teimlo'n hyderus wrth gwrdd â chleifion a'u trin, mae angen ymarfer. Dyna pam y byddwn ni'n rhoi digon o gyfleoedd i chi gael profiad clinigol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth fel rhan o'ch gradd Fferylliaeth.



## Mireinio eich sgiliau yn ein hamgylcheddau efelychu clinigol

Rydyn ni wedi buddsoddi mewn ardal efelychu sgiliau clinigol sy'n cynnwys digonedd o gyfarpar, gan gynnwys ward ysbyty replica â phedwar gwely a nifer o ystafelloedd ymgynghori sy'n efelychu lleoliadau clinigol go iawn. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys yr holl offer a chyfarpar y byddwch chi'n gweithio gyda nhw fel fferyllydd a hyd yn oed fodelau cleifion efelychiadol o'r radd flaenaf sy'n gweithredu ac yn rhyngweithio fel pobl.

Mae rhoi mynediad i chi i'r cyfleusterau hyn yn golygu y gallwch chi ymarfer eich sgiliau newydd mewn amgylchedd diogel, cefnogol a magu hyder cyn i chi weithio'n uniongyrchol gyda chleifion.







## Mynd ar leoliadau

Ar wahân i'ch dysgu yn y brifysgol ei hun, does dim all gymryd lle profiad proffesiynol mewn practis, felly byddwch chi'n cymryd rhan mewn lleoliadau gwaith ysbrydoledig trwy gydol eich gradd.

Mae'r lleoliadau hyn yn boblogaidd iawn am reswm da – maen nhw'n rhoi cyfle i chi ryngweithio â chleifion a gofalwyr, y cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill mewn amrywiaeth o leoliadau. Byddwch chi nid yn unig yn cael cyfle i arsylwi rôl y fferyllydd a dod i ddeall sut mae gofal fferyllol yn cael ei ddarparu orau, byddwch chi hefyd yn cael chwarae rhan weithredol yn y lleoliadau hyn, gan helpu i feithrin eich sgiliau a'ch hyder wrth i chi symud 'mlaen trwy'r cwrs.

Bydd rhai o'r lleoliadau hyn yn sesiynau byr, lleol, hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn, bydd eraill yn hirach ac efallai y bydd angen i chi deithio ac aros dros nos ychydig ymhellach i ffwrdd, fel yn ardal hardd gogledd Cymru.

Mae lleoliadau yn rhan hanfodol o'n rhaglen MPharm felly mae gennym Dîm Lleoliadau pwrpasol i'ch helpu i gynllunio a pharatoi ar gyfer y teithiau hyn.

Bydd eich ystod eang o leoliadau yn ymestyn eich gwybodaeth, yn gwella eich sgiliau clinigol a myfyriol, ac yn eich paratoi ar gyfer byd gwaith.

**"Fy hoff leoliad oedd yn fy ail flwyddyn, pan ymwelais ag uned asesu gofal i'r henoed.**

Roedd gwerthfawrogi safbwynt y claf a gwerth tîm amlddisgyblaethol mor gynnar yn y cwrs yn amhrisiadwy ac yn rhywbeth y bydda i'n ei gofio am byth. Mae rhoi gwybodaeth dwi wedi'i dysgu mewn darlithoedd a gweithdai ar waith ar leoliad wastad yn gyffrous ac mae cael y cyfle i rannu'r wybodaeth hon â chleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn golygu bod yr holl waith caled werth yr ymdrech.

**Ella Jenkins, myfyriwr graddedig MPharm**





# Ble gallai eich gradd fferylliaeth fynd â chi

Fel fferyllydd, bydd gennych ddewis eang o opsiynau gyrfa a all wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl. Isod ceir crynodeb o rai o'r gyrfaoedd mwyaf cyffredin ar gyfer graddedigion Fferylliaeth:

### Fferyllydd ysbyty

Mae gan fferyllwyr ysbyty rôl allweddol yn y tîm gofal iechyd. Maen nhw'n gweithio yn ysbytai'r GIG neu mewn ysbytai preifat, gan ganolbwyntio'n benodol ar anghenion cleifion.

### Fferyllydd gofal sylfaenol

Wedi'u lleoli mewn canolfan gofal iechyd leol neu feddygfa, mae fferyllwyr gofal sylfaenol yn optimeiddio meddyginiaethau cleifion i sicrhau'r manteision mwyaf posibl a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol gyffuriau. Maen nhw hefyd yn helpu i ddatblygu gwasanaethau i gefnogi'r boblogaeth leol â'u hanghenion iechyd.

### Fferyllydd cymunedol

Gan weithio o'u fferyllfa eu hunain neu gangen cadwyn fferyllfeydd, mae fferyllwyr cymunedol ar reng flaen gofal iechyd yn y DU neu dramor.

### Fferyllydd diwydiannol

Mae fferyllwyr diwydiannol yn helpu i ymchwilio, dylunio, datblygu a phrofi meddyginiaethau a thriniaethau newydd, gan wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ac o safon dda i gleifion.

### Fferyllydd academaidd

Mae fferyllwyr academaidd yn gweithio mewn prifysgolion, sefydliadau ymchwil neu sefydliadau eraill ledled y byd. Maen nhw'n mwynhau cyfuniad o addysgu, ymchwil ac ymarfer fferylliaeth.

### Ac mae mwy...

Mae ein graddedigion hefyd wedi mynd 'mlaen i fwynhau gyrfaoedd fel fferyllwyr milfeddygol a milwrol, ac mewn materion rheoleiddiol. Mae'r opsiynau gyrfaol ar gyfer fferyllwyr yn niferus ac amrywiol, sy'n gwneud hon yn radd gyffrous i chi ei hystyried.





# Lle cynhelir ymchwil sy'n arwain y byd

## Ar hyn o bryd, rydyn ni'n gweithio'n galed i helpu i fynd i'r afael â rhai o glefydau mwyaf gwanychol a difrifol y blaned.

Trwy ein hymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol, rydyn ni'n sbarduno gwelliannau mewn darganfod cyffuriau, datblygu cyffuriau, a chyflenwi cyffuriau i wella iechyd cleifion.

Fel myfyriwr israddedig yn ein Hysgol, byddwch chi'n elwa o'n hangerdd dros wyddoniaeth ac ymchwil, oherwydd mae ein tîm o ymchwilwyr, sy'n arwain y byd, yn llunio ac yn addysgu'r rhaglen MPharm.

O fioleg foleciwlaidd i gemeg feddyginiaethol, mae gwyddoniaeth meddyginiaethau yn greiddiol i'r hyn rydyn ni'n ei addysgu, a thrwy astudio yma, byddwch chi'n dod i gysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf ym maes ymchwil fferyllol.

Byddwch chi hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan weithredol yn ein hymchwil pan fyddwch chi'n mynd i'r afael â'ch prosiect ymchwil yn y bedwaredd flwyddyn. Mae hwn yn gyfle gwych i archwilio'r maes sydd o'r diddordeb mwyaf i chi mewn ffordd wirioneddol ystyrlon.



**Dwi wedi gallu archwilio un o achosion curiad calon afreolaidd, rhywbeth sy'n effeithio ar filiynau o bobl ac, os na caiff ei drin, rhywbeth a all fod yn angheuol hyd yn oed.**

Efallai bod fy nghanfyddiadau'n rhai bach, ond dwi'n teimlo'n falch 'mod i wedi cyfrannu at ymchwil a allai helpu i drin cleifion yn y dyfodol.

**Daniel, myfyriwr MPharm**





# Lle byddwch chi'n teimlo'n reit gartrefol

Pan gerddwch chi drwy ein drysau, cewch eich croesawu gan ein cymuned gefnogol lle mae staff a myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth.

Fel myfyriwr, cewch arweiniad gan eich Tiwtor Personol a fydd gyda chi drwy gydol eich gradd pedair blynedd. Bydd yn cysylltu â chi, bydd wrth law i ateb unrhyw gwestiynau, a bydd yn eich cyfeirio at gymorth pellach os bydd ei angen arnoch.

Yn ogystal â chael Tiwtor Personol, mae ein Tîm Cynghorol Uwch Diwtoriaid yn ymroddedig i'ch cefnogi os oes gennych unrhyw bryderon yn ystod eich amser gyda ni.

Bydd gennych fentor-fyfyriwr hefyd pan fyddwch chi'n ymuno â'n Hysgol am y tro cyntaf.
Bydd y person hwn yn un o'ch cyd-fyfyrwyr Fferylliaeth yn un o'r blynyddoedd uwch sydd wedi bod yn eich sgidiau chi ychydig amser yn ôl. Bydd yn hapus i'ch helpu i ymgartrefu i fywyd yn y brifysgol.

**"Dwi'n ennill y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnaf i baratoi ar gyfer gyrfa mewn Fferylliaeth sy'n bwysig iawn gan fod y proffesiwn yn newid mor gyflym.**

Mae'r staff yma'n gymwynasgar ac agos-atoch iawn os oes angen cymorth academaidd neu fugeiliol arnoch chi.

**Brijesh, myfyriwr MPharm**



# Lle byddwch chi'n gwneud ffrindiau am oes

## Byddwch chi'n ennill cymaint mwy na gradd pan fyddwch chi'n ymuno â ni.

Gofynnwch i unrhyw un o'n myfyrwyr a byddan nhw wrth eu boddau'n ddweud wrthych am y ffrindiau maen nhw wedi'u gwneud – cyfeillgarwch am oes.

Mae ein myfyrwyr yn arbennig o angerddol am eu cymdeithas myfyrwyr eu hunain, sef Cymdeithas Myfyrwyr Fferyllol Cymru – neu WPSA. Mae'r gymdeithas yn falch o gynnal llawer o ddigwyddiadau elusennol, chwaraeon a chymdeithasol hwyl ar gyfer ein holl fyfyrwyr Fferylliaeth - gyda Dawns Fferylliaeth flynyddol WPSA yn goron ar y cyfan.

Felly os ydych chi am wneud ffrindiau gyda myfyrwyr sy'n dilyn llwybr tebyg i chi, mae lle i chi yma – cewch eich croesawu â breichiau agored.

**Yn y ffilm fer hon, mae'r myfyriwr MPharm Natasha yn sôn am y profiad o astudio Fferylliaeth gyda ni, pa gefnogaeth mae hi'n ei chael a pham na allai garu WPSA yn fwy!**



**Fe gewch chi gwrdd â llawer o bobl newydd, ond dydych chi ddim yn cael eich colli yn y dorf.** Mae 'na gyfle gwych i wneud ffrindiau - dwi wir yn teimlo'n gartrefol yma.

**Natasha, myfyriwr MPharm**






## Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn Mynediad 2025 ac mae'n gywir wrth fynd i'r wasg ym mis Mehefin 2024. Fodd bynnag, mae'r cyfnod rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym yn hir. Felly, ewch i'n gwefan: **www.caerdydd.ac.uk** cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma.

Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'r wefan, cynnwys y wefan fydd yn cael blaenoriaeth ac yn nodi'r sail y bwriadwn ei defnyddio i ddarparu ein gwasanaethau i chi.

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, gan ddefnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosbectws a'r broses weithgynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®.

Mae'r argraffwyr hefyd wedi'u hachredu yn ôl safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**

**This document is also available in English.**

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

Gellir trefnu i'r prosbectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:
Ffôn: 029 2087 4455
E-bost: RobertsL9@caerdydd.ac.uk

# Cysylltu â ni

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ein cwrs israddedig, bydden ni wrth ein bodd yn clywed gennych.**


Ebost: **pharmacy-ug@caerdydd.ac.uk**

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4080**

Cyfeiriad:
**Yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol**
**Prifysgol Caerdydd**
**Adeilad Redwood**
**Rhodfa'r Brenin Edward VII**
**Caerdydd CF10 3NB**



PHRMY/0924


**Dysgwch fwy am ein rhaglen Meistr mewn Fferylliaeth gan gynnwys trosolwg o'r cwrs, nodweddion allweddol, gofynion mynediad a chyfleoedd gyrfaol.**

Gwefan: **cardiff.ac.uk/cy/pharmacy-pharmaceutical-sciences**